

## 2018 Rhif 157 (Cy. 38)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4  
(Cyffordd 23a (Magwyr), Sir  
Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn),  
Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd  
yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-  
bach), Casnewydd i Gyffordd 29A  
(Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd  
Cerbydau Dros Dro) 2018

*Gwnaed*

*6 Chwefror 2018*

*Yn dod i rym*

*10 Chwefror 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a Thraffordd yr A48(M), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r traffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y traffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd i Gyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 10 Chwefror 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 10 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y traffyrdd” (“*the motorways*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a Thraffordd yr A48(M).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r traffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Chwefror 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

### **YR ATODLEN**

Y darnau o gerbyttffyrdd tua’r gorllewin a thua’r dwyrain Traffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 34 (Meisgyn),

Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys holl ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yr M4 rhwng y cyffyrdd hyn..

Y darn o Draffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd a Chyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd.